

CARDIFF
UNIVERSITY

PRIFYSGOL
CAERDYDD



Bwrsariaethau ac Ysgoloriaethau Mynediad 2019

Bwrsariaethau Prifysgol Caerdydd

Dyfarniadau o £1,000 os asesir bod incwm eich aelwyd yn is na £35,000.

Ysgoloriaethau Prifysgol Caerdydd

Dyfarniadau o £3,000 mewn pynciau dethol os byddwch yn cyflawni'r graddau gofynnol, sef AAA ar lefel Safon Uwch.

www.caerdydd.ac.uk

Bwrsariaethau Prifysgol Caerdydd

Rydym am wneud yn siŵr nad yw amgylchiadau ariannol yn rhwystro'r myfyrwyr hynny y nodwyd bod ganddynt y gallu i lwyddo ym Mhrifysgol Caerdydd rhag ymgymryd ag astudiaethau israddedig.



Gan gadw hyn mewn cof, bydd Bwrsariaethau Prifysgol Caerdydd ar gael yn 2019 i roi cefnogaeth ariannol i'r rhai sy'n dod o aelwydydd sy'n ennill llai na chyfanswm o £35,000 mewn incwm asededig. Mae'r fwsariaeth o £1,000 ar gael ar ben y grantiau a'r benthyciadau cynhaliath a ariennir gan y llywodraeth.

Pwy fydd yn gymwys ar gyfer y bwrsariaethau?

Yn 2017/18, fe wnaeth dros 5,000 o'n myfyrwyr elwa o un o Fwrsariaethau Prifysgol Caerdydd. Rydym yn disgwyl y bydd y nifer yn debyg yn 2019. Mae'r bwrsariaethau ar gael i fyfyrwyr israddedig amser llawn o aelwydydd incwm is sy'n gymwys i dderbyn cyllid y Deyrnas Unedig ar gyfer costau byw¹. Bydd y dyfarniadau ar gael i fyfyrwyr sy'n dechrau eu hastudiaethau israddedig ym mis Medi 2019².

I allu bod yn gymwys i gael dyfarniad rhaid i chi:

- fod yn atebol i dalu ffioedd dysgu o £9,000
- bod yn gymwys i gael cymorth cyllid i fyfyrwyr y Deyrnas Unedig ar gyfer cynhaliath a bod ag incwm aelwyd a aseswyd sydd o dan £35,000¹.

Sylwer: Efallai y bydd rhai myfyrwyr sy'n astudio pynciau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yn derbyn arian gan y **GIG**. Os felly, ni fyddant yn gymwys ar gyfer Bwrsariaethau Prifysgol Caerdydd.

Dylech ddarllen y telerau a'r amodau ar ein gwefan i gael gwybodaeth lawn am gymhwysedd: www.caerdydd.ac.uk/nawdd-israddedig

Faint yw Bwrsariaeth Prifysgol Caerdydd?

Yn 2019, bydd y bwrsariaethau'n £1,000 ar gyfer myfyrwyr y flwyddyn gyntaf. Mae'r fwsariaeth hon yn gysylltiedig â blwyddyn academiaidd 2019/20. Yn y blynyddoedd dilynol, os bydd myfyriwr yn parhau i fodloni'r meini prawf, bydd bwrsariaeth yn cael ei thalu. £500 fydd isafswm y fwsariaeth a delir i fyfyrwyr sy'n parhau.

Does dim angen i chi wneud cais am Fwrsariaeth Prifysgol Caerdydd

Pennir eich cymhwysedd trwy'r prawf modd statudol a gynhelir gan eich corff cyllid myfyrwyr yn y Deyrnas Unedig, i bennu hawl i gael grantiau a benthyciadau'r wladwriaeth, felly ni fydd angen i chi gyflwyno cais ar wahân am Fwrsariaeth Prifysgol Caerdydd³. Anfonir cadarnhad ynghylch y fwsariaeth cyn i'r taliad cyntaf gael ei wneud ddiwedd mis Ionawr 2020.

Bwrsariaeth y Cam Nesaf

Mae'r dyfarniad hwn ar gyfer myfyrwyr sy'n dod i Brifysgol Caerdydd a sydd wedi cwblhau Cynllun Ehangu Cyfranogiad y Brifysgol, ac mae incwm eu haelwyd yn is na £35,000. Gallech naill ai gael gostyngiad o £1,000 yn eich ffioedd llety ym Mhrifysgol Caerdydd neu fwsariaeth teithio o £500 yn eich blwyddyn gyntaf. Gellir gwneud y taliadau hyn ar ben Bwrsariaeth Prifysgol Caerdydd.

Bwrsariaethau eraill

Rydym yn ymrwmo i hyrwyddo mynediad teg i'r Brifysgol a chynnig bwrsariaethau i fyfyrwyr (yn amodol ar amodau a thelerau) sy'n:

- Ymadawyr gofal
- Wedi ymddieithrio oddi wrth eu teuluoedd
- Gofalwyr
- Ceiswyr Lloches
- Cyn-filwyr y lluoedd

Sut mae cael rhagor o wybodaeth?

Mae manylion llawn am y dyfarniadau hyn ar gael ar ein gwefan: www.caerdydd.ac.uk/funding-ug

Gallwch hefyd gysylltu â'r Tîm Arian.

Ffôn: 029 2087 4844

Ebost: adviceandmoney@caerdydd.ac.uk

Cyfeirnodau

1. Fel y diffiniwyd yn y rheoliadau ariannu Cefnogi Myfyrwyr.
2. Dylai myfyrwyr presennol gyfeirio at yr adran Cefnogi Myfyrwyr ar wefan y Brifysgol.
3. Sylwer y bydd angen i'r Brifysgol, fel rhan o'r amodau wrth i chi gael eich asesu ar gyfer bwrsariaeth, gael data ynghylch incwm eich aelwyd gan eich awdurdod dyfarnu. Felly, os hoffech gael eich ystyried ar gyfer cael bwrsariaeth y Brifysgol, peidiwch â thicio'r blwch ar y ffurflen asesu gan fod hynny'n dynodi nad ydych yn caniatáu i'r wybodaeth hon gael ei rhannu. Mae angen yr wybodaeth hon i asesu a ydych yn gymwys i dderbyn bwrsariaeth.

Ysgoloriaethau Prifysgol Caerdydd

Prifysgol Caerdydd yw un o'r prifysgolion mwyaf llwyddiannus a phoblogaidd yn y Deyrnas Unedig.

Mae safon y ceisiadau yn uchel, ac mae cystadleuaeth gref am leoedd. Rydym yn awyddus i recriwtio'r myfyrwyr gorau ac i'n helpu i gyflawni hynny byddwn yn cynnig Ysgoloriaethau Prifysgol Caerdydd yn 2019.

Faint yw gwerth yr ysgoloriaethau?

£3,000 yw gwerth pob un o Ysgoloriaethau Prifysgol Caerdydd. Taliadau arian parod ydynt, ac nid oes prawf modd ar eu cyfer.

Pryd mae'r ysgoloriaethau ar gael?

Mae'r ysgoloriaethau ar gael i fyfyrwyr israddedig sy'n cychwyn ar eu hastudiaethau ym mis Medi 2019.

Ym mha feysydd pwnc mae'r ysgoloriaethau ar gael?

Mae'r ysgoloriaethau ar gael yn y pynciau canlynol:

- | | |
|---------------------------------------|--|
| • Addysg | • Gwyddorau Cymdeithasol |
| • Almaeneg | • Gwyddorau'r Ddaear a'r Môr |
| • Archaeoleg | • Japaneeg |
| • Astudiaethau Cyfieithu | • Peirianneg Drydanol ac Electronig |
| • Athroniaeth | • Peirianneg Feddygol |
| • Astudiaethau Crefyddol a Diwinyddol | • Peirianneg Integredig |
| • Cemeg | • Portiwgaleg |
| • Cerddoriaeth | • Sbaeneg |
| • Cyfrifiadureg a Gwybodeg | • Tsieinëeg Fodern |
| • Cymdeithaseg | • Trosedd |
| • Cynllunio a Datblygu Trefol | • Newyddiaduraeth |
| • Daearyddiaeth Ddynol a Chynllunio | • Niwrowyddoniaeth |
| • Eidaleg | • Nyrsio (derbyn myfyrwyr ym mis Mawrth) |
| • Ffiseg | • Y Gymraeg |
| • Ffrangeg | |

Gallwch edrych i weld a oes ysgoloriaethau ar gael ar gyfer rhaglen benodol eich gradd chi yn: www.caerdydd.ac.uk/nawdd-israddedig

Pwy fydd yn gymwys ar gyfer yr ysgoloriaethau?

Dyfarnir yr ysgoloriaethau i fyfyrwyr o'r Deyrnas Unedig sy'n dod i Brifysgol Caerdydd ym mis Medi 2019 ac sy'n dilyn un o'r rhaglenni gradd a ddynodwyd ar gyfer ysgoloriaeth. Er mwyn cael ysgoloriaeth mae angen ichi gyflawni graddau AAA o leiaf ar lefel Safon Uwch (i gael gwybod beth yw'r cymwysterau amgen cyfatebol sy'n dderbyniol, edrychwch ar ein telerau a'n hamodau neu cysylltwch â'r Swyddfa Bwsariaethau) a bodloni pob agwedd ar eich cynnig. Ar ben hynny, rhaid eich bod wedi derbyn y lle astudio a gynigiwyd i chi gan Gaerdydd, a hynny'n bendant, erbyn 31 Gorffennaf 2019. Dylech ddarllen y telerau a'r amodau ar ein gwefan i gael gwybodaeth lawn am gymhwysedd. www.caerdydd.ac.uk/nawdd-israddedig

Does dim angen i chi wneud cais am ysgoloriaeth

Cyhd â'ch bod wedi derbyn y cynnig a gawsoch ar gyfer rhaglen gradd ddynodedig gan Brifysgol Caerdydd, a hynny'n bendant, erbyn 31 Gorffennaf 2019, a'n bod ni wedi derbyn a chadarnhau eich canlyniadau arholiadau erbyn 31 Awst 2019, byddwch yn cael eich ystyried ar gyfer dyfarniad yn awtomatig.

Pryd bydda i'n gwybod a wyf wedi bod yn llwyddiannus?

Bydd y rhai sy'n llwyddiannus yn cael gwybod yn ysgrifenedig erbyn 31 Hydref 2019.

Os bydda i'n llwyddiannus pryd bydda i'n derbyn fy ysgoloriaeth?

Bydd myfyrwyr llwyddiannus yn cael £1,500 yn eu blwyddyn gyntaf, ac yn amodol ar berfformiad academaidd sy'n parhau'n foddhaol, telir y gweddill o £1,500 mewn rhandaliadau cyfartal ym mhob un o'r blynnydoedd sy'n weddill yn eu cwrs.

Ble galla i gael gwybod rhagor?

Mae manylion llawn ar gael yn ein telerau a'n hamodau, sydd i'w gweld ar ein gwefan, sef: www.caerdydd.ac.uk/funding-ug

I gael cyngor pellach ynghylch ysgoloriaethau, cysylltwch â'r Tîm Arian.

Ffôn: 029 2087 4844

Ebost: bursariesandscholarships@caerdydd.ac.uk

Ysgoloriaethau Eraill

Mae gan Brifysgol Caerdydd ystod o ysgoloriaethau eraill sydd ar gael ar gyfer myfyrwyr israddedig. Cewch ragor o wybodaeth ar ein gwefan: www.caerdydd.ac.uk/nawdd-israddedig

Benthyciadau a Grantiau'r Wladwriaeth

Bydd y rhan fwyaf o fyfyrwyr y Deyrnas Unedig/yr Undeb Ewropeaidd yn gymwys i gael cymorth ariannol i dalu cost gyfan unrhyw ffioedd dysgu, fel nad oes rhaid talu dim ymlaen llaw. Ni fydd angen i chi dalu unrhyw arian yn ôl nes eich bod yn graddio ac yn dechrau ennill mwy na £25,000 y flwyddyn. Gallech fod yn gymwys hefyd ar gyfer grantiau a benthyciadau costau byw y wladwriaeth. Bydd y modd y dylech wneud cais am gyllid myfyrwyr a'r pecyn ariannu sydd ar gael i chi yn dibynnu ar ble rydych chi'n byw.

Os ydych yn byw yng Nghymru fel arfer

Cyllid Myfyrwyr Cymru, Ffôn: 0300 200 4050

www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk

Os ydych yn byw yn Lloegr fel arfer

Student Finance England, Ffôn: 0300 100 0607

www.direct.gov.uk/studentfinance

Os ydych yn byw yng Ngogledd Iwerddon fel arfer

Student Finance NI, Ffôn: 0300 100 0077

www.studentfinanceneni.co.uk

Os ydych yn byw yn yr Alban fel arfer

Student Awards Agency for Scotland, Ffôn: 0300 555 0505

www.saas.gov.uk

Pan fyddwch yn
llwyddo i gael lle
i astudio ym
Mhrifysgol Caerdydd
gallwch edrych i'r
dyfodol gyda
hyder

Er mor ddoeth yw paratoi ar
gyfer y dyfodol, mae llawer
i'w elwa *ar hyn o bryd*, ac
mae'n bwysig eich bod yn
edrych ymlaen at fywyd yng
Nghaerdydd gyda
brwdfrydedd

- Bydd galw mawr amdanoch chi – rydym ymysg y 25 prifysgol orau a gaiff eu targedu gan gyflogwyr sy'n chwilio am **raddedigion o'r radd flaenaf** (Ffynhonnell: High Fliers Research – The Graduate Market 2018)
- Mae dros 94%** o'n graddedigion yn gweithio neu'n parhau i astudio'n amser llawn chwe mis ar ôl graddio (Ffynhonnell: Arolwg Ymadawyr Addysg Uwch yn HESA, 2015/16)
- Bydd ein Gwasanaeth Gyrfaoedd wrth law i'ch helpu **bob amser**
- Byddwch yn elwa ar ansawdd a phrofiad ein **staff academiaidd**, sy'n cynnwys **Nobel Laureate a nifer o gymrodyr y Gymdeithas Frenhinol** a sefydliadau mawreddog eraill
- Byddwch mewn Prifysgol sy'n **arbenigo mewn sawl maes** gan gynnwys ym mhynciau gwyddoniaeth, technoleg a chlinigol, yn ogystal â'r dyniaethau a'r gwyddorau cymdeithasol
- Byddwch mewn Prifysgol y proffesiynau, lle mae dros **90 o gyrff achredu**, fel Sefydliad y Peirianwyr Sifil a Strwythurol, y Gymdeithas Cemeg Frenhinol a'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol - yn helpu i baratoi myfyrwyr ar gyfer eu gyrfaoedd yn y dyfodol
- Byddwch yn astudio yn un o brifysgolion **Grŵp Russell** – un o brifysgolion rhagorol y DU
- Bydd eich **buddsoddiad yn talu ar ei ganfed** mewn cyfleusterau rhagorol, gan gynnwys labordai addysgu, darlithfeydd a gwasanaethau gwybodaeth modern
- Byddwch yn cael profiad **gwerth chweil** nid yn unig o ran eich addysg a'ch cymhwyster, ond hefyd o ganlyniad i astudio mewn amgylchedd uchelgeisiol lle rhoddir pwyslais ar ragori
- Byddwch mewn sefyllfa i lwyddo - o ganlyniad i'ch ymrwymiad i **ddysgu** a'n hymrwymiad ni i gynnig **addysgu** o'r radd flaenaf.
- Byddwch yn astudio ac yn cymdeithasu bob dydd gyda **grŵp talentog o gyfoedion** sydd wedi'u denu i Gaerdydd o bob cwr o'r DU a thros 100 o wledydd ar draws y byd
- Aiff eich arian ymhellach:** Caerdydd yw'r "ddinas fwyaf cost-effeithiol i fyfyrwyr" Mynegai Natwest am Gostau Byw i Fyfyrwyr 2017
- Byddwch yn astudio mewn **prifddinas** ddeniadol, gyfeillgar a ffyniannus sy'n cael ei chydabod yn gyffredinol fel lle neilltuol o dda i fyw ac i astudio
- Gwarantir lle ar eich cyfer yn llety'r Brifysgol** yn eich blwyddyn gyntaf os byddwch yn derbyn lle ar sail cadarn drwy'r cylch derbyn arferol
- Gallwn gynnig **Undeb Myfyrwyr sydd ymhlith y gorau ym Mhrydain** o ran maint, ansawdd a gweithgarwch
- Byddwch yn ymlacio mewn dinas sy'n cynnig **cyfleusterau rhagorol o safbwynt diwylliant, chwaraeon ac adloniant**
- Bydd cyfleusterau chwaraeon o'r radd flaenaf ar gael ar eich cyfer gan gynnwys **tri chanolfan chwaraeon a 60 o glybiau chwaraeon**. Felly, beth bynnag fo lefel eich gallu a'ch ymroddiad, mae lluo o gyfleoedd ar gael ar eich cyfer.

Myfyrwyr sy'n Blogio

O awgrymiadau astudio i ble i fwyta, i gymdeithasau, teithiau penwythnos a ble i gael eich llyfrau, mae ein myfyrwyr sy'n blogio yn fyfyrwyr go iawn sy'n siarad am brofiad gwirioneddol myfyriwr yng Nghaerdydd.

Peidiwch â cholli eu blogiau diweddaraf i gael dysgu mwy am sut beth yw byw ac astudio yng Nghaerdydd.

www.caerdydd.ac.uk/blogwyrmyfyrwyr